

Manyleb y Person

Rhif y Swydd	V-CC-PDR99	Dynodiad:	Cynorthwy-ydd Gofal Wrth Gefn	Adran:	Gwasanaethau Cymdeithasol
Adran:	Gwasanaethau Oedolion – Gofal Preswyl	Cwblhawyd Gan:	M. Jenkins	Dyddiad:	

Mae Manyleb y Person yn amlinellu'r prif nodweddion sydd eu hangen i gyflawni'r swydd y manylir arni'n briodol. Wrth lunio'r fanyleb, mae archwiliad manwl o ddisgrifiad y swydd wedi'i gynnal er mwyn tynnu sylw at yr elfennau o'r swydd y credir eu bod yn hanfodol.

Bwriad Manyleb y Person yw rhoi gwell dealltwriaeth i ddarpar ymgeiswyr o ofynion y swydd. Fe'i defnyddir fel rhan o'r broses recriwtio i ddewis ymgeiswyr ar gyfer y rhestr fer. Dylech gyfeirio at bob pwynt ym Manyleb y Person a rhoi sylw iddo, gan gyflwyno tystiolaeth o'r sgiliau, y profiad a'r wybodaeth sydd gennych chi ym mhob un o'r meysydd hyn. Byddwch yn benodol bob amser. Peidiwch â defnyddio ymadroddion cyffredinol fel "Mae gen i'r sgiliau sydd eu hangen..." neu "Rydw i'n hyderus y gallaf wneud y swydd yma'n dda...". Bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer angen gwybod sut rydych chi'n bodloni'r gofynion yn seiliedig ar y dystiolaeth rydych chi'n ei chyflwyno.

		Hanfodol	Dymunol	Sicrhawyd gan
1.	Profiad	<ul style="list-style-type: none"> Profiad o ddarparu gofal personol sy'n canolbwyntio ar y person, cefnogaeth gyda thasgau byw o ddydd i ddydd a chefnogaeth emosiynol i oedolion agored i niwed 	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio mewn lleoliad preswyl i bobl hŷn Gweithio gyda phobl ag anableddau corfforol neu ddementia ac ymddygiad sy'n herio Cofnodi, cynllunio gofal, asesu risg, rhoi moddion, codi a chario Gweithio gan gadw at gynlluniau gofal, asesiadau risg, polisïau a gweithdrefnau Gwasanaethau cwsmeriaid 	Ffurflen Gais Cyfweiliad Geirda

		Hanfodol	Dymunol	Sicrhawyd gan
2.	Gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth sylfaenol o egwyddorion gofal a gwerthoedd craidd • Dealltwriaeth sylfaenol o amddiffyn oedolion • Dealltwriaeth sylfaenol o anghenion a dyheadau pobl hŷn a phobl hŷn sydd â dementia • Dealltwriaeth sylfaenol o lechyd a Diogelwch 	<ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth sylfaenol o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Safonau – Rheoliadau Cenedlaethol 	<p>Ffurflen Gais</p> <p>Cyfweliad</p> <p>Geirda</p>
3.	Sgiliau ac agweddau	<ul style="list-style-type: none"> • Gallu cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig • Gallu adnabod peryglon, lleihau risg a gwneud penderfyniadau • Gallu gweithio mewn sefyllfaoedd llawn straen • Gallu gweithio gyda phobl bryderus a phobl o dan straen, a phobl sy'n herio 	<ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau cyfathrebu heb eiriau 	<p>Ffurflen Gais</p> <p>Cyfweliad</p> <p>Geirda</p>
4.	Cymwysterau a hyfforddiant	<ul style="list-style-type: none"> • Parodrwydd i gymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithio tuag at gymhwyster galwedigaethol proffesiynol 	<ul style="list-style-type: none"> • TGAU Saesneg • Sgiliau TGCh • NVQ/QCF Lefel 2 mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol neu gyfatebol • Hyfforddiant perthnasol h.y. Codi a Chario, Hylendid Bwyd, Rheoli Heintiau, Cymorth Cyntaf, Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed 	<p>Ffurflen Gais</p> <p>Cyfweliad</p> <p>Geirda</p>

		Hanfodol	Dymunol	Sicrhawyd gan
5.	Agwedd a chymhelliant	<ul style="list-style-type: none"> Hunanyrwybyddiaeth a gallu adnabod, asesu ac ymateb yn briodol i'ch emosiynau eich hun, emosiynau pobl eraill ac emosiynau grwpiau Aelod da o dîm ond yn gallu gweithio ar eich liwt eich hun Agwedd hyblyg at weithio shifftiau ac ar rota Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol ac i fynychu cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi y tu allan i oriau rota Ymrwymiad i ymgymryd ag arferion gofal yn unol â pholisïau, gweithdrefnau, rheoliadau, safonau, cyfarwyddyd a'r cod ymddygiad ar gyfer gofal cymdeithasol 		<p>Ffurflen Gais</p> <p>Cyfweliad</p> <p>Geirda</p>
6.	Arall (rhowch fanylion)	<ul style="list-style-type: none"> Ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal ac i arferion heb fod yn wahaniaethol Ymrwymiad i gyfrinachedd Gallu gyrru/teithio ledled y Fro neu rhwng lleoliadau, fel sy'n briodol 	<ul style="list-style-type: none"> Bydd cyfradd defnyddiwr car achlysurol yn berthnasol os bydd y Cyngor/eich rheolwr yn credu ei bod yn angenrheidiol i chi ddefnyddio eich car eich hun. 	<p>Ffurflen Gais</p> <p>Cyfweliad</p> <p>Geirda</p>